Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr

Nodau ac amcanion

- Darparu amrywiaeth o wasanaethau therapiwtig effeithiol i fyfyrwyr mewn modd ymatebol a hyblyg. Defnyddio arbenigedd proffesiynol y tîm i roi cymorth seicolegol sy'n dderbyniol, yn amserol, yn deg, yn addas ac yn effeithiol er mwyn cefnogi myfyrwyr yn ystod eu hamser yn y Brifysgol;
- Mesur a dangos effaith a gwerth ein gwasanaeth i'r Brifysgol a'i myfyrwyr;
- Datblygu gweithgareddau sy'n meithrin gwytnwch a hunanddibyniaeth emosiynol myfyrwyr;
- Cynnal sgiliau proffesiynol y staff fel eu bod yn gallu diwallu'r gofynion o ran y gwasanaeth a'r ddarpariaeth;
- Cynnal system effeithiol o gyfeirio myfyrwyr a dulliau cydweithredol o weithio gyda thimau, gwasanaethau ac adrannau eraill.